

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU****NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES****OFFERYNNAU STATUDOL****STATUTORY INSTRUMENTS****2001 Rhif 2709 (Cy.228)****2001 No. 2709 (W.228)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001****The Education (Foundation Body) (Wales) Regulations 2001****NODYN ESBONIADOL****EXPLANATORY NOTE***(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)**(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys yng Nghymru yn unig, yn gwneud darpariaeth ynglyn â sefydlu, aelodaeth a swyddogaethau cyrff sefydledig a'r camau i'w cymryd mewn cysylltiad ag ysgolion sy'n ymuno neu'n ymadael â grŵp o ysgolion y mae'r corff sefydledig yn gweithredu drosto. Maent hefyd yn darparu ar gyfer dirwyn grŵp o gyrff sefydledig i ben. Maent yn ailadrodd, gyda rhai newidiadau ac ychwanegiadau, ddarpariaethau a geid yn flaenorol yn Rheoliadau Cyrff Sefydledig 1999, sy'n cael eu diddymu.

These Regulations, which apply only in Wales, make provision in connection with the establishment, membership and functions of foundation bodies and the steps to be taken in connection with schools joining, or leaving, a group of schools for which the foundation body acts. They also provide for the winding-up of group foundation bodies. They repeat, with some changes and additions, provisions formerly contained in the Foundation Body Regulations 1999, which are revoked.

Mae corff sefydledig yn gorff corfforaethol wedi'i sefydlu o dan adran 21 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â thair neu ragor o ysgolion ("y grŵp") y mae pob un ohonynt naill ai yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol, sef -

A foundation body is a body corporate established under section 21 of the School Standards and Framework Act 1998 to perform in relation to 3 or more schools ("the group") each of which is either a foundation or a voluntary school, the following functions, namely -

- (a) dal eiddo ar ran yr ysgolion hynny at ddibenion yr ysgolion;
- (b) penodi llywodraethwyr sefydledig ar gyfer yr ysgolion hynny;
- (c) hybu cydweithredu rhwng yr ysgolion yn y grŵp.

- (a) to hold property for those schools for the purposes of the schools;
- (b) to appoint foundation governors for those schools;
- (c) to promote co-operation between schools in the group.

Mae'r Rheoliadau a'r newidiadau o'r Rheoliadau blaenorol yn cael eu hesbonio'n fanylach isod.

The Regulations and the changes from the earlier Regulations, are explained in more detail below.

Rheoliad 2: mae'n cynnwys diffiniadau.

Regulation 2: contains definitions.

Rheoliad 3: mae'n darparu mai dim ond ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu ysgol gymunedol y mae'r corff llywodraethu'n bwriadu iddi fod yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol sydd yn gallu ffurfio rhan o grŵp ac yn gallu gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu corff sefydledig. Ni all ysgol y mae ganddi waddoliad eisoes (heblaw corff sefydledig) byth ffurfio rhan o grŵp ac ni chaiff ei chorff llywodraethu gynnig sefydlu corff sefydledig.

Rheoliadau 4 i 7, Atodlen 1: maent yn ymdrin â sefydlu cyrff sefydledig, gwneud eu hofferyn llywodraethu a throsglwyddo tir.

Rheoliadau 8 a 9: maent yn ymdrin ag aelodaeth cyrff sefydledig, cworwm ar gyfer eu penderfyniadau, cyfnodau swyddi'r aelodau a materion eraill.

Rheoliadau 10, 11 a 12 ac Atodlen 2: maent yn nodi'r rheolau cymhwyster ar gyfer penodiad fel aelod o gorff sefydledig a'r amgylchiadau pan fydd yr aelodau yn anghymwys i ddal swydd (neu i barhau i ddal swydd).

Rheoliad 13: mae'n darparu bod aelod o gorff sefydledig yn cael mân dreuliau rhesymol yn unig a bod rhaid iddo beidio â chael unrhyw fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol o gontractau a wneir gan y corff sefydledig na chael unrhyw fuddiant mewn unrhyw dir a ddeler gan y corff sefydledig.

Rheoliad 14: mae'n ymdrin â phenodi clerics i'r corff sefydledig.

Rheoliad 15: mae'n ymdrin â chynnal cyfarfodydd cyrff sefydledig.

Rheoliad 16: mae'n darparu i gyrff sefydledig gyhoeddi adroddiadau blynyddol.

Rheoliad 17: mae'n darparu ar gyfer cadw cyfrifon gan gyrff sefydledig.

Rheoliad 18: mae'n darparu ynglŷn â gwybodaeth a chofnodion.

Rheoliad 19: mae'n nodi'r swyddogaethau a roddir i gyrff sefydledig.

Rheoliad 20: mae'n nodi'r pwerau y gall gyrff sefydledig eu harfer mewn cysylltiad â'u swyddogaethau.

Regulation 3: provides that a school may only form part of a group and may only apply to the National Assembly for the establishment of a foundation body if it is a foundation or voluntary school or if it is a community school which the governing body proposes should become a foundation or voluntary school. A school which has a foundation already (other than a foundation body) may never form part of a group and its governing body may not propose the establishment of a foundation body.

Regulations 4 to 7, Schedule 1: deal with the establishment of foundation bodies, the making of its instrument of government and transfer of land.

Regulations 8 and 9: deal with membership of foundation bodies, quorum for its decisions, terms of office for members and other matters.

Regulations 10, 11 and 12 and Schedule 2: set out the rules for eligibility for appointment as a member of a foundation body and the circumstances in which members are disqualified for holding (or continuing to hold) office.

Regulation 13: provides that a member of a foundation body may receive only reasonable out-of-pocket expenses and must take no direct or indirect benefit from any contracts entered into by the foundation body or have any interest in any land held by the foundation body.

Regulation 14: deals with the appointment of the clerk to the foundation body.

Regulation 15: deals with the conduct of meetings of foundation bodies.

Regulation 16: makes provision for foundation bodies to publish annual reports.

Regulation 17: makes provision for the maintenance of accounts by foundation bodies.

Regulation 18: makes provision with respect to information and records.

Regulation 19: sets out the functions which are conferred on foundation bodies.

Regulation 20: sets out the powers which foundation bodies may exercise in connection with their functions.

Rheoliad 21: mae'n nodi'r weithdrefn ar gyfer ymuno â grŵp ar ôl sefydlu'r corff sefydledig i ddechrau gan gynnwys darpariaeth ar gyfer trosglwyddo tir.

Rheoliadau 22 a 23: maent yn nodi gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ysgol yn dymuno ymadael â grŵp gan gynnwys darpariaeth ar gyfer trosglwyddo tir.

Rheoliad 24: mae'n darparu ar gyfer dirwyn cyrff sefydledig i ben.

Rheoliad 25: mae'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i benderfynu ar anghydfodau rhwng cyrff llywodraethu ysgolion mewn grŵp y mae corff sefydledig yn gweithredu drosto.

Rheoliad 26: mae'n cynnwys darpariaeth ynglŷn â defnddio tir.

Rheoliad 27: mae'n addasu Atodlen 10 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn ei chymhwysiad at drosglwyddiadau tir o dan y Rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau yn ymgorffori mân newidiadau i adlewyrchu'r ffaith y gall ysgol sy'n sefydlu, ymuno neu ymadael â chorff sefydledig fod yn mynd trwy newid categori ysgol o dan Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 sy'n dod i rym ar yr un pryd â'r Rheoliadau hyn. Heblaw am hynny, dyma'r prif newidiadau i'r Rheoliadau blaenorol:

- (a) Mae'r Rheoliadau newydd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ysgol yn dymuno ymadael â grŵp (rheoliadau 22 a 23).
- (b) Maent yn gwneud darpariaeth ar gyfer dirwyn cyrff sefydledig i ben (rheoliad 24).
- (c) Maent yn estyn Atodlen 2 (anghymhwysio rhag dal swydd) i ymdrin ag anhwylder meddwl, personau y gwaherddir neu y cyfyngir ar eu cyflogaeth o dan adran 218(6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a phersonau ag anghymhwyswyd rhag bod yn berchnogion ysgolion annibynnol yn rhinwedd Gorchmynion a wnaed o dan adran 470 neu 471 o Ddeddf Addysg 1996. Yn ychwanegol, o dan y Rheoliadau newydd mae aelod o gorff sefydledig sydd (heb gydsyniad y corff hwnnw) yn methu â bod yn bresennol mewn dau gyfarfod olynol o'r corff hwnnw yn cael ei anghymhwysio rhag dal swydd am gyfnod o 12 mis.

Nid yw'r Rheoliadau yn ymdrin â throsglwyddo tir yn achos ysgol sy'n newid ei chategori. Ymdrinnir â hyn yn Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001.

Regulation 21: sets out the procedure for joining a group after the initial establishment of the foundation body including provision for transfer of land.

Regulations 22 and 23: set out procedures to be followed where a school wishes to leave a group including provision for transfer of land.

Regulation 24: provides for the winding-up of foundation bodies.

Regulation 25: enables the National Assembly to determine disputes between governing bodies of schools in a group for which a foundation body acts.

Regulation 26: contains provision concerning the use of land.

Regulation 27: modifies Schedule 10 to the Education Reform Act 1988 in its application to transfers of land under the Regulations.

The Regulations incorporate minor changes to reflect the fact that a school establishing, joining or leaving a foundation body may be undergoing a change of school category under the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001 which come into force at the same time as these Regulations. Apart from that, the main changes from the earlier Regulations are as follows:

- (a) The new Regulations set out procedures to be followed where a school wishes to leave a group (regulations 22 and 23).
- (b) They make provision for the winding-up of foundation bodies (regulation 24).
- (c) They extend Schedule 2 (disqualification for holding office) to cover mental disorder, persons whose employment is prohibited or restricted under section 218(6) of the Education Reform Act 1988 and persons disqualified for being proprietors of independent schools by virtue of Orders made under section 470 or 471 of the Education Act 1996. In addition, under the new Regulations a member of a foundation body who (without the consent of that body) fails to attend 2 consecutive meetings of that body is disqualified for holding office for a period of 12 months.

The Regulations do not deal with the transfer of land in the case of a school which is changing its category. This is covered by the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001.

2001 Rhif 2709 (Cy.228)**2001 No. 2709 (W.228)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001****The Education (Foundation Body) (Wales) Regulations 2001***Wedi'u gwneud* 17 Gorffennaf 2001*Made* 17th July 2001*Yn dod i rym* 1 Medi 2001*Coming into force* 1st September 2001

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 21(5) a (6), 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(a) a pharagraff 1(5) o Atodlen 12 iddi ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b):

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 21(5) and (6), 138(7) and (8) and paragraph 1(5) of Schedule 12 to, the School Standards and Framework Act 1998(a) and now vested in the National Assembly for Wales(b):

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Citation, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001.

1.-(1) These Regulations may be cited as the Education (Foundation Body) (Wales) Regulations 2001.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2001.

(2) These Regulations shall come into force on 1st September 2001.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) These Regulations apply only to Wales.

Dehongli**Interpretation**

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn:

2.-(1) In these Regulations:

ystyr "aelod cymunedol" ("*community member*") yw aelod o'r corff sefydledig a enwebwyd gan gyrrff llywodraethu ysgolion o fewn y grŵp ac a benodwyd gan lywodraethwyr-aelodau y corff sefydledig o dan reoliad 5(b) neu 8(4);

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

ystyr "y cler" ("*the clerk*") yw cler y corff sefydledig a benodir yn unol â rheoliad 14;

"the Change of Category Regulations" ("*y Rheoliadau Newid Categori*") means the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001(c);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

"the clerk" ("*y cler*") means the clerk to the foundation body appointed in accordance with regulation 14;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

"community member" ("*aelod cymunedol*") means a member of the foundation body nominated by the governing bodies of schools within the group and appointed by the governor members of the foundation body under regulation 5(b) or 8(4);

ystyr "y dyddiad diddymu" ("*the dissolution date*") yw'r dyddiad y diddymir corff

(a) 1998 p.31. I gael ystyr "regulations" gweler adran 142(1) o Ddeddf 1998.

(a) 1998 c.31. For the meaning of "regulations" see section 142(1) of the 1998 Act.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 2000/

sefydledig, wedi'i bennu mewn gorchymyn gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 9(5) neu 24(1);

ystyr "y dyddiad ffurfio" (*"the formation date"*) yw'r dyddiad y ffurfir grŵp, wedi'i bennu yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 6(1);

ystyr "y dyddiad ymadael" (*"the leaving date"*) yw'r dyddiad y mae ysgol yn ymadael â grŵp, wedi'i bennu yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 22(1);

ystyr "y dyddiad ymuno" (*"the joining date"*) yw'r dyddiad y mae ysgol yn ymuno â grŵp, wedi'i bennu yn ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 21(3);

ystyr "grŵp" (*"group"*) yw'r grŵp o dair neu ragor o ysgolion y mae corff sefydledig yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol drosto, sef -

(a) dal eiddo'r ysgolion hynny at ddibenion yr ysgolion, a

(b) penodi llywodraethwyr sefydledig ar gyfer yr ysgolion hynny;

ystyr "llywodraethwr-aelod" (*"governor member"*) yw aelod o'r corff sefydledig a benodir gan gorff llywodraethu ysgol o dan reoliad 8(1) neu (3) neu reoliad 21(8);

dehonglir "llywodraethwr-aelod cychwynnol" (*"initial governor member"*) yn unol â rheoliad 4(4); ac

ystyr "y Rheoliadau Newid Categori" (*"the Change of Category Regulations"*) yw Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(a).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae cyfeiriad at reoliad neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at reoliad â rhif, neu yn ôl fel y digwydd, at Atodlen yn y Rheoliadau hyn ac mae cyfeiriad mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw neu'r Atodlen honno.

(3) Os oes tir yn cael ei drosglwyddo i unrhyw gorff a'i freinio ynddo yn unol â'r Rheoliadau hyn, bydd unrhyw hawliau neu rwymedigaethau -

(a) sy'n cael eu mwynhau neu eu tynnu gan y trosglwyddwr mewn cysylltiad â'r tir; a

(b) sy'n bodoli yn union cyn trosglwyddo'r tir,

hefyd yn cael eu trosglwyddo i'r corff hwnnw ac yn breinio ynddo yn rhinwedd y Rheoliadau hyn.

(4) Mae i'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn a nodir yng ngholofn gyntaf y tabl canlynol yr ystyr a briodolir iddynt gan y darpariaethau a nodir gyferbyn â hwynt yn yr ail golofn.

"the dissolution date" (*"y dyddiad diddymu"*) means the date, on which a foundation body is to be dissolved, specified in an order of the National Assembly in accordance with regulation 9(5) or 24(1);

"the formation date" (*"y dyddiad ffurfio"*) means the date, on which a group is to be formed, specified in writing by the National Assembly under regulation 6(1);

"governor member" (*"llywodraethwr-aelod"*) means a member of the foundation body appointed by the governing body of a school under regulation 8(1) or (3) or regulation 21(8);

"group" (*"grŵp"*) means the group of three or more schools for which a foundation body performs the following functions, namely -

(a) to hold property of those schools for the purposes of those schools, and

(b) to appoint foundation governors for those schools;

"initial governor member" (*"llywodraethwr-aelod cychwynnol"*) shall be construed in accordance with regulation 4(4);

"the joining date" (*"y dyddiad ymuno"*) means the date on which a school joins a group, specified in writing by the National Assembly under regulation 21(3);

and "the leaving date" (*"y dyddiad ymadael"*) means the date on which a school leaves a group, specified in writing by the National Assembly under regulation 22(1); and

"the National Assembly" (*"y Cynulliad Cenedlaethol"*) means the National Assembly for Wales.

(2) In these Regulations, unless the context otherwise requires, a reference to a numbered regulation or to a Schedule is a reference to a numbered regulation or, as the case may be, to a Schedule to these Regulations and a reference in a regulation or Schedule to a numbered paragraph is a reference to the paragraph so numbered in that regulation or Schedule.

(3) Where any land is transferred to and vests in any body in accordance with these Regulations, any rights or liabilities -

(a) enjoyed or incurred by the transferor in connection with the land; and

(b) subsisting immediately before the transfer of the land,

shall also be transferred to, and by virtue of these Regulations vest in, that body.

(4) Expressions used in these Regulations set out in the first column of the following table shall have the meanings attributed to them by the provisions set out opposite thereto in the second column.

Tabl

blwyddyn ariannol <i>financial year</i>	adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996(a)
corff sefydledig <i>foundation body</i>	adran 21(4) o Ddeddf 1998
gwaddoliad <i>foundation</i>	adran 21(3) o Ddeddf 1998
llywodraethwr sefydledig <i>foundation governor</i>	paragraff 2 o Atodlen 9 i Ddeddf 1998

(5) Mae cyfeiriad at gategori mewn unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn gyfeiriad at un o'r categorïau a nodir yn adran 20(1) o Ddeddf 1998.

Cyrff sefydledig a grwpiau

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dim ond os yw ysgol yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol neu os yw'n ysgol gymunedol y mae'r corff llywodraethu yn cynnig iddi ddod yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol -

- (a) y gall yr ysgol honno ffurfio rhan o grŵp; a
- (b) y gall corff llywodraethu'r ysgol wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu corff sefydledig.

(2) Ni all ysgol sydd â gwaddoliad, heblaw corff sefydledig, ffurfio rhan o grŵp ac ni chaff ei chorff llywodraethu gynnig sefydlu corff sefydledig.

Sefydlu cyrff sefydledig

4.-(1) Ni all corff sefydledig gael ei sefydlu ond o dan adran 21 o Ddeddf 1998 yn unol â'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn.

(2) Bydd cyrff llywodraethu tair ysgol neu ragor sy'n dymuno sefydlu corff sefydledig penodol ac sy'n cynnig ffurfio grŵp y bydd y corff sefydledig yn gweithredu drosto yn gwneud cais gyda'i gilydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu'r corff sefydledig hwnnw.

- (3) Bydd y cais yn cynnwys -
 - (a) datganiad bod corff llywodraethu pob ysgol wedi cytuno ar y cais;
 - (b) offeryn llywodraethu drafft ar gyfer y corff sefydledig wedi'i seilio ar y model a nodir yn Atodlen 1; ac
 - (c) datganiad yn cynnwys -

Table

financial year <i>blwyddyn ariannol</i>	section 579(1) of the Education Act 1996(a)
foundation <i>gwaddoliad</i>	section 21(3) of the 1998 Act
foundation body <i>corff sefydledig</i>	section 21(4) of the 1998 Act
foundation governor <i>llywodraethwr sefydledig</i>	paragraph 2 of Schedule 9 to the 1998 Act.

(5) A reference to a category in any provision of these Regulations is a reference to one of the categories set out in section 20(1) of the 1998 Act.

Foundation bodies and groups

3.-(1) Subject to paragraph (2) -

- (a) a school may only form part of a group; and
- (b) the governing body of a school may only apply to the National Assembly for the establishment of a foundation body,

if that school is a foundation or voluntary school or if it is a community school which the governing body propose should become a foundation or voluntary school.

(2) A school which has a foundation, other than a foundation body, may not form part of a group and its governing body may not propose the establishment of a foundation body.

Establishment of foundation bodies

4.-(1) A foundation body may only be established under section 21 of the 1998 Act in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) The governing bodies of the three or more schools which wish a particular foundation body to be established and which propose to form the group for which the foundation body will act shall together apply to the National Assembly for the establishment of that foundation body.

- (3) The application shall contain -
 - (a) a statement that the application has been agreed by the governing body of each school;
 - (b) a draft instrument of government for the foundation body based on the model set out in Schedule 1; and
 - (c) a statement containing -

(a) 1996. p.56.

(a) 1996. c.56

- (i) enwau llywodraethwyr-aelodau cychwynnol y corff sefydledig i'w penodi yn unol â rheoliad 8(1);
- (ii) y dyddiad y cynnigir sefydlu'r corff sefydledig; a
- (iii) y categori y cynnigir i bob ysgol fod ynddo wrth ddod i'r grŵp neu ddatganiad fod ysgol benodol yn dod i'r grŵp yn ei chategori presennol.

(4) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r cais -

- (a) bydd y corff sefydledig yn cael ei sefydlu fel corff corfforaethol o dan adran 21 o Ddeddf 1998 ar ddyddiad a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig; a
- (b) ar y dyddiad sefydlu, y llywodraethwyr-aelodau cychwynnol a bennir yn y cais, yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r corff llywodraethu neu'r cyrff llywodraethu o dan sylw, fydd llywodraethwyr-aelodau cychwynnol y corff sefydledig.

5. Ar ôl sefydlu'r corff sefydledig a chyn y dyddiad ffurfio, rhaid i'r llywodraethwyr-aelodau cychwynnol wneud y canlynol -

- (a) mabwysiadu'r offeryn llywodraethu yn y ffurf a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol;
- (b) penodi aelodau cymunedol o blith y rhai a enwebwyd yn unol â rheoliad 8(2); ac
- (c) dethol personau i gael eu penodi yn llywodraethwyr sefydledig i'r ysgolion yn y grŵp,

a dim ond at y dibenion hynny neu mewn cysylltiad â hwy y caiff y corff sefydledig arfer ei bwerau cyn y dyddiad hwnnw .

6.-(1) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni bod aelodaeth y corff sefydledig wedi'i chyfansoddi'n briodol, bod yr offeryn llywodraethu wedi'i fabwysiadu a bod yr ysgolion yn ysgolion o'r categori a bennwyd yn y cais, neu y byddant yn ysgolion felly wrth ddod i'r grŵp, bydd drwy hysbysiad ysgrifenedig yn darparu -

- (a) y bydd y corff sefydledig yn cyflawni'r swyddogaethau a roddir iddo gan y Rheoliadau hyn ar gyfer yr ysgolion yn y grŵp o ddyddiad a bennir ganddo; a
- (b) y bydd yr ysgolion a bennwyd yn y cais ar y dyddiad hwnnw yn ffurfio'r grŵp y mae'r corff sefydledig i weithredu drosto.

(2) Os nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni felly o fewn yr hyn sydd, yn ei farn ef, yn amser rhesymol o dan yr holl amgylchiadau, gall drwy orchymyn ddiddymu'r corff sefydledig ar unrhyw ddyddiad a bennir ganddo yn y gorchymyn.

- (i) the names of the initial governor members of the foundation body to be appointed in accordance with regulation 8(1);
- (ii) the date on which it is proposed that the foundation body will be established; and
- (iii) the category in which it is proposed that each school will enter the group or a statement that a particular school will enter in its existing category.

(4) If the National Assembly approves the application -

- (a) a foundation body shall be established as a body corporate under section 21 of the 1998 Act on a date specified by the National Assembly in writing; and
- (b) on the date of establishment, the initial governor members specified in the application, subject to any changes agreed by the National Assembly with the governing body or bodies in question, shall be the initial governor members of the foundation body.

5. After establishment of the foundation body and before the formation date, the initial governor members must -

- (a) adopt the instrument of government in the form approved by the National Assembly;
- (b) appoint community members from those nominated in accordance with regulation 8(2); and
- (c) select persons to be appointed as foundation governors to schools in the group,

and the foundation body may only exercise its powers before that date for or in connection with those purposes.

6.-(1) If the National Assembly is satisfied that the membership of the foundation body has been properly constituted, that the instrument of government has been adopted and that the schools have or will on entering the group become schools of the category specified in the application, it shall by notice in writing provide that -

- (a) the foundation body shall perform the functions conferred on it by these Regulations for the schools in the group as from a date specified by it; and
- (b) the schools specified in the application shall on that date form the group for which the foundation body is to act.

(2) If the National Assembly is not so satisfied within what is, in its opinion, a reasonable time in all the circumstances it may by order dissolve the foundation body on such date as it may specify in the order.

(3) Pan fydd unrhyw un o'r ysgolion yn dod i'r grŵp o dan gategori gwahanol i'w chategori presennol, y dyddiad a bennir yn unol â pharagraff (1) fydd y dyddiad y bwriedir i'r newid categori ddigwydd yn unol â'r Rheoliadau Newid Categori.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), ar y dyddiad a bennir yn unol â pharagraff (1) bydd unrhyw dir, heblaw tir a ddelir ar ymddiriedaeth, sydd yn union cyn y dyddiad hwnnw yn cael ei ddal gan gorff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n dod i'r grŵp yn cael ei drosglwyddo i'r corff sefydledig ar y dyddiad hwnnw, ac yn rhinwedd y rheoliad hwn yn breinio ynddo at ddibenion yr ysgolion sy'n ffurfio'r grŵp y mae'r corff hwnnw yn gweithredu drosto.

(5) Nid yw paragraff (4) yn gymwys mewn perthynas ag ysgol os yw'r ysgol, ar ôl i gynigion a gyhoeddwyd yn unol â'r Rheoliadau Newid Categori gael eu cymeradwyo, yn dod i'r grŵp mewn categori gwahanol i'w chategori presennol.

7. Rhaid i gorff llywodraethu unrhyw ysgol sydd yn y grŵp, neu a fydd yn y grŵp nad yw'n dod i'r grŵp mewn categori gwahanol i'w chategori presennol, hysbysu'r awdurdod addysg lleol y dylai offeryn llywodraethu'r ysgol enwi'r corff sefydledig fel y corff penodi at ddibenion penodi llywodraethwyr sefydledig.

Aelodaeth cyrff sefydledig

8.-(1) Rhaid i gorff llywodraethu pob ysgol sy'n cynnig sefydlu'r corff sefydledig benodi aelod o'r corff llywodraethu i fod yn llywodraethwr-aelod o'r corff sefydledig hwnnw.

(2) Rhaid i gyrff llywodraethu yr ysgolion sy'n cynnig sefydlu'r corff sefydledig enwebu personau i fod yn aelodau cymunedol.

(3) Os bydd llywodraethwr-aelod yn peidio â dal swydd yna -

- (a) rhaid i'r clerch hysbysu holl gyrff llywodraethu holl ysgolion y grŵp; a
- (b) rhaid i'r corff llywodraethu a benododd y llywodraethwr-aelod hwnnw benodi llywodraethwr-aelod newydd yn ei gyfarfod llawn nesaf.

(4) Os bydd aelod cymunedol yn peidio â dal swydd neu os oes angen penodi aelod cymunedol newydd oherwydd bod ysgol wedi ymuno â'r grŵp -

- (a) rhaid i'r clerch hysbysu cyrff llywodraethu holl ysgolion y grŵp; a
- (b) rhaid i lywodraethwyr-aelodau y corff sefydledig benodi rhywun i lenwi'r swydd neu aelod cymunedol newydd ar sail yr enwebiadau a wnaed gan gyrff llywodraethu'r ysgolion yn y grŵp.

(3) Where any of the schools is entering the group under a different category from its existing category, the date specified in accordance with paragraph (1) must be the date on which it is intended that the change of category should take place in accordance with the Change of Category Regulations.

(4) Subject to paragraph (5), on the date specified in accordance with paragraph (1) any land, other than land held on trust, which, immediately before that date, is held by the governing body of any school entering the group for the purposes of that school shall on that date be transferred to, and by virtue of this regulation vest in, the foundation body for the purposes of the schools comprising the group for which that body acts.

(5) Paragraph (4) does not apply in relation to a school where following approval of proposals published in accordance with the Change of Category Regulations, the school is entering the group in a different category from its existing category.

7. The governing body of any school in, or to be in, the group which is not entering the group in a different category from its existing category must notify the local education authority that the instrument of government for the school should identify the foundation body as the appointing body for the purpose of appointing foundation governors.

Membership of foundation bodies

8.-(1) The governing body of each school which proposes the establishment of the foundation body must appoint a member of the governing body to be a governor member of that foundation body.

(2) The governing bodies of the schools which propose the establishment of the foundation body must nominate persons to be community members.

(3) If a governor member ceases to hold office then -

- (a) the clerk must notify the governing bodies of all schools in the group; and
- (b) the governing body who appointed that governor member must appoint a new governor member at their next full meeting.

(4) If a community member ceases to hold office or there is a need to appoint a new community member because a school has joined the group -

- (a) the clerk must notify the governing bodies of all schools in the group; and
- (b) the governor members of the foundation body must appoint a replacement or a new community member on the basis of nominations made by the governing bodies of schools in the group.

9.-(1) Y cworwm ar gyfer penderfyniad gan gorff llywodraethu ysgol o dan reoliad 8 fydd dwy ran o dair (wedi'i dalgrynnu i fyny i rif cyfan) o'r llywodraethwyr mewn swydd sydd â hawl i bleidleisio.

(2) Pedair blynedd fydd cyfnod swydd aelod o'r corff sefydledig ond gellir ail-benodi aelod.

(3) Ni all person bleidleisio dros ei benodi ei hun na'i ailbenodi ei hun yn aelod o gorff sefydledig.

(4) Rhaid llenwi swyddi gwag erbyn cyfarfod nesaf y corff sefydledig neu gan y cyfarfod ar ôl hynny os daw'r swydd yn wag lai na thri mis cyn y cyfarfod nesaf.

(5) Os na lenwir swydd wag aelod yn unol â pharagraff (4) gall y Cynulliad Cenedlaethol ddiddymu'r corff sefydledig drwy orchymyn ar unrhyw ddyddiad a bennir ganddo, a bydd darpariaethau rheoliad 24(1)(ch) a (d) a (2) i (5) yn gymwys i'r diddymu hwnnw ac eithrio y bydd y cyfnod o chwe mis y cyfeirir ato yn rheoliad 24(2) yn cychwyn ar unrhyw ddyddiad a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig.

Cymhwysio ag anghymhwysio

10.-(1) Ni all llywodraethwr sefydledig a benodwyd i ysgol yn y grŵp gan gorff sefydledig fod yn llywodraethwr-aelod o'r corff sefydledig hwnnw ac ni chaiff bleidleisio ar benodiadau i'r corff sefydledig.

(2) Rhaid i aelod cymunedol -

- (a) bod â buddiannau busnes neu fuddiannau eraill yn y gymuned leol;
- (b) peidio â bod yn rhiant i ddisgybl cofrestredig, yn aelod o'r corff llywodraethu, yn aelod o'r staff addysgu neu o'r staff nad ydynt yn addysgu nac yn ddisgybl cofrestredig, yn unrhyw ysgol yn y grŵp;
- (c) peidio â bod yn aelod etholedig o awdurdod addysg lleol sy'n cynnal unrhyw ysgol yn y grŵp nac yn berson a gyflogir gan awdurdod o'r fath yn ei swyddogaeth fel awdurdod addysg lleol; ac
- (ch) bod wedi cyrraedd 18 oed ar ddyddiad ei benodi.

(3) Bydd llywodraethwr-aelod o'r corff sefydledig yn peidio â dal swydd pan fydd yn peidio â bod yn aelod o gorff llywodraethu'r ysgol a'i benododd.

(4) Ni chaiff aelod o'r corff sefydledig fod yn weithiwr cyflogedig i'r corff hwnnw.

9.-(1) The quorum for a decision of the governing body of a school under regulation 8 shall be two-thirds (rounded up to a whole number) of the governors in post who are entitled to vote.

(2) The term of office of a member of a foundation body shall be four years but a member may be re-appointed.

(3) A person may not vote for his or her own appointment or re-appointment as a member of a foundation body.

(4) Vacancies must be filled by the next meeting of the foundation body or the meeting after if the vacancy arises less than three months before the next meeting.

(5) If a vacancy of a member is not filled in accordance with paragraph (4) the National Assembly may by order on such date as it may specify in the order dissolve the foundation body and the provisions of regulation 24(1)(d) and (e) and (2) to (5) shall apply to such dissolution save that the 6 months period referred to in regulation 24(2) shall commence on such date as may be specified by the National Assembly in writing.

Eligibility and disqualification

10.-(1) A foundation governor who has been appointed to a school in the group by a foundation body may not be a governor member of that foundation body and may not vote on appointments to the foundation body.

(2) A community member must -

- (a) have business or other interests in the local community;
- (b) not be a parent of a registered pupil, a member of the governing body, a member of the teaching or non-teaching staff or a registered pupil, at any school in the group;
- (c) not be an elected member of a local education authority which maintains any school in the group or a person employed by such an authority in their capacity as a local education authority; and
- (d) have attained the age of 18 years at the date of his or her appointment.

(3) A governor member of the foundation body shall cease to hold office on ceasing to be a member of the governing body of the school which appointed him or her.

(4) A member of the foundation body may not be an employee of that body.

Anghymhwysu rhag dal swydd

11 Bydd Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas ag anghymhwysu person rhag dal swydd, neu barhau mewn swydd, fel aelod o gorff sefydledig.

12. Caiff aelod o gorff sefydledig ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy hysbysu'r clerc yn ysgrifenedig.

Cyfngiadau

13. Ni fydd aelod o gorff sefydledig yn cael unrhyw dâl, heblaw mân dreuliau rhesymol ag angenrheidiol, ac ni chaiff gymryd unrhyw fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol o unrhyw gontractau a wnaed gan y corff sefydledig na chael unrhyw fuddiant mewn unrhyw dir a ddelir gan y corff sefydledig.

Clerc

14.-(1) Rhaid i'r corff sefydledig benodi person i fod yn glerc iddo.

(2) Ni chaiff aelod o'r corff sefydledig weithredu fel clerc, ond pan fydd y clerc yn methu â bod yn bresennol mewn cyfarfod, caiff y corff sefydledig benodi aelod i fod yn glerc at ddibenion y cyfarfod hwnnw (heb effeithio ar ei safle fel aelod).

Cynnal cyfarfodydd

15.-(1) Rhaid i'r corff sefydledig wneud y canlynol -

- (a) ethol aelod yn gadeirydd yn y cyfarfod cyffredin cyntaf ym mhob blwyddyn;
- (b) penderfynu ar gworwm y mae'n rhaid iddo beidio â bod yn llai na hanner (wedi'i dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf) o gyfanswm aelodau'r corff sefydledig pan fydd yn gyfan; ac
- (c) cadw cofnodion o drafodion y cyfarfodydd a threfnu eu bod ar gael i gyrrff llywodraethu'r ysgolion sydd yn y grŵp pan ofynnir amdanynt.

(2) Yn y cyfarfod cyntaf rhaid i'r corff sefydledig benodi llywodraethwyr sefydledig i'r ysgolion yn y grŵp yn unol ag offerynnau llywodraethu'r ysgolion o dan sylw.

Adroddiad blynyddol

16.-(1) Rhaid i'r corff sefydledig gyhoeddi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau er gwybodaeth i gyrrff llywodraethu'r ysgolion yn y grŵp gan nodi'r canlynol -

- (a) enwau pob aelod, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau ers yr adroddiad blynyddol diwethaf a chan enwi'r cadeirydd;

Disqualification for holding office

11. Schedule 2 to these Regulations shall have effect in relation to the disqualification of a person for holding, or continuing to hold, office as a member of a foundation body.

12. A member of a foundation body may resign at any time by notice in writing to the clerk.

Restrictions

13. A member of a foundation body shall receive no payment, other than reasonable and necessary out-of-pocket expenses, and may take no direct or indirect benefit from any contracts entered into by the foundation body or have any interest in any land held by the foundation body.

Clerc

14.-(1) The foundation body must appoint a person to be its clerk.

(2) A member of a foundation body may not act as clerk, but where the clerk fails to attend a meeting, the foundation body may appoint a member to be the clerk for the purposes of that meeting (without affecting his or her position as a member).

Conduct of meetings

15.-(1) The foundation body must -

- (a) elect a member as chairman at the first ordinary meeting of each year;
- (b) determine a quorum which must not be less than half (rounded up to the nearest whole number) of the total number of members of the foundation body when complete; and
- (c) keep minutes of the proceedings of meetings and make them available to the governing bodies of schools in the group on request.

(2) At the first meeting the foundation body must appoint foundation governors to schools in the group in accordance with the instruments of government of the schools in question.

Annual report

16.-(1) The foundation body must publish an annual report of its activities for the information of the governing bodies of the schools in the group setting out -

- (a) the names of each member, drawing attention to any changes since the last annual report and identifying the chairman;

- (b) crynodeb o benderfyniadau a gweithredoedd y corff sefydledig ers i'r adroddiad blynyddol diwethaf gael ei gyhoeddi oni bai bod cofnodion cyfarfodydd y corff sefydledig yn cael eu cyhoeddi ar wahân;
- (c) datganiad o unrhyw incwm a gwariant yn dangos y balans fel y mae ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dod o fewn cyfnod yr adroddiad; ac
- (ch) datganiad am unrhyw warediadau, pryniadau neu roddion arwyddocaol ac am unrhyw rwymedigaethau sy'n parhau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dod o fewn cyfnod yr adroddiad.

(2) Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn dwy flynedd ar ôl y dyddiad ffurfio a gall ymdrin â chyfnod sy'n hwy na blwyddyn.

(3) Yn dilyn yr adroddiad cyntaf, rhaid cyhoeddi adroddiadau blynyddol heb fod yn ddiweddarach na'r cyfarfod nesaf ar ôl diwedd y flwyddyn yr adroddir arni.

Cyfrifon

17.-(1) Rhaid i'r corff sefydledig gadw cyfrifon, sicrhau bod archwilyr allanol annibynnol yn eu harchwilio a chyhoeddi ymhob blwyddyn ariannol gopi o'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol flaenorol fel y'u harchwiliwyd ynghyd â datganiad eu bod wedi cael eu harchwilio.

(2) Rhaid i'r corff sefydledig gydymffurfio o fewn mis â chais ysgrifenedig gan unrhyw berson i roi copi o gyfrifon diweddaraf y corff iddo.

Gwybodaeth a chofnodion

18.-(1) Rhaid i'r corff sefydledig roi i'r Cynulliad Cenedlaethol yr wybodaeth y gofynnir amdani o dro i dro.

